**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-783
Ein cyf/Our ref KW/01582/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

2 Gorffennaf 2018

Annwyl David

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 20 Mehefin ynglŷn â'r ddeiseb yn galw am weithredu er mwyn sicrhau cwricwlwm cyfartal i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg; yr ydych yn nodi yn eich llythyr ein bod wedi gohebu ar y mater hwn yn y gorffennol.

Hoffwn ddechrau drwy ddweud fy mod yn gwerthfawrogi'r rhwystredigaeth y mae athrawon a dysgwyr yn ei deimlo am na allant astudio ar gyfer rhai cymwysterau yn eu dewis iaith. Wrth edrych i'r dyfodol, mae hawliau cyfartal i'r ddwy iaith yn elfen ganolog o'r gwaith o gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Hoffwn eich sicrhau bod anghenion penodol addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg yn derbyn ystyriaeth lawn wrth i'r trefniadau ar gyfer strwythur y cwricwlwm newydd, gan gynnwys trefniadau asesu, gael eu datblygu.

Gan droi at eich cwestiynau penodol, mae disgwyliadau Llywodraeth Cymru o Cymwysterau Cymru wedi'u nodi yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015. Rhydd y Ddeddf ddau brif nod ac mae'n rhaid i'r sefydliad weithredu mewn ffordd y mae'n ystyried sy'n briodol ar gyfer y diben o'u cyflawni (Deddf Cymwysterau Cymru a.3).

Amcan y nodau hyn yw sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau yn gallu cyflawni anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru yn effeithiol a hybu hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a'r system gymwysterau. Mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru, wrth ystyried beth sy'n briodol at y diben o gyflawni'r nodau hyn, roi ystyriaeth i faterion amrywiol. Ymhlith y materion hyn mae 'dymunoldeb' hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys argaeledd trefniadau asesu sy'n galluogi asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg, a chymwysterau sy'n hybu neu'n hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg' (Deddf Cymwysterau Cymru 2015 a.3(2)(b)).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cymwysterau Cymru wedi fy nghynghori eu bod yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu i'w hannog i gynnig darpariaeth iaith Gymraeg a dwyieithog. Er enghraifft, mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu grŵp cyrff dyfarnu er mwyn iddynt allu cydweithio i nodi rhai o'r heriau sy'n wynebu cyrff dyfarnu a nodi ffyrdd i'w cynorthwyo i ddatblygu a sicrhau ansawdd cymwysterau ac asesiadau Cymraeg a dwyieithog.

Mae Cymwysterau Cymru, drwy'r dyraniad grant a roddir gan Lywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol sy'n galluogi cyrff dyfarnu i ddarparu manylebau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau drwy eu proses grantiau cystadleuol. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/2018, hawliwyd £158,000 yn erbyn y grant hwn, a hawliwyd £121,000 ohono gan gyrff dyfarnu y tu allan i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi tua £2.6 miliwn y flwyddyn ar adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg fel pwnc a phynciau a chymwysterau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r adnoddau hyn ar gael yn fasnachol am nad yw'r farchnad yn hyfyw'n ariannol. Caiff adnoddau eu comisiynu yn dilyn ymgynghoriad ag ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn nodi eu hanghenion a'r bwlch yn y ddarpariaeth bresennol.

Yr eiddoch yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education